# Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

---

Sefydlwyd Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ym mis Rhagfyr 2012 yn dilyn ymrwymiad yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor, help a her i wella'r elfennau cydraddoldeb sy'n cael eu hystyried wrth lunio ein cyllideb. Mae'n creu fforwm i rannu a thrafod natur anghydraddoldebau yng Nghymru ac mae'n ffynhonnell werthfawr o arbenigedd yn ogystal â sianel ymgysylltu bwysig.

## Aelodaeth

Yn 2012-13, roedd y Grŵp Cynghorol yn cael ei gadeirio gan yGweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb. Mae'r grŵp yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.
Ers mis Gorffennaf 2013, mae'r grŵp wedi cael ei gadeirio ar y cyd gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae'r grwpiau canlynol yn cael eu cynrychioli:

- AGE Cymru
- Anableddau Cymru
- Canolfan y GIG dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Stonewall
- Grŵp Monitro CCUHP
- Fforwm Hil Cymru
- TUC Cymru
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae Caroline Joll, a oedd yn arfer bod yn economegydd emeritws ym Mhrifysgol Caerdydd, yn rhoi cyngor arbenigol i'r grŵp ac mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) hefyd yn sylwedydd annibynnol ar y grŵp.

## Crynodeb o'i waith

Ym mis Ionawr 2015, aeth y Grŵp ati i adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i gylch gwaith, llunio rhaglen waith er mwyn ystyried a thrafod agweddau ar raglenni a pholisïau Llywodraeth Cymru, a gofyn i gael presenoldeb ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru.

Hyd yn hyn, maen nhw wedi trafod y polisi tai a Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod gweddill y flwyddyn, bydd y grŵp yn trafod cyrhaeddiad addysgol a nodweddion gwarchodedig a Chymunedau yn Gyntaf.

**Trylowyder**

Mae tudalen gwefan wedi cael ei sefydlu ar dudalennau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r dudalen yn disgrifio Gwaith y grŵp ac yno, mae modd darllen agendau'r cyfarfodydd, papurau a chofnodion sy'n ymwneud â chyfarfodydd blaenorol. Gellir dod o hyd iddyn nhw drwy glicio ar y ddolen hon:

http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/budget-advisory-group-for-equality/?lang=cy

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Medi 2015**